



# leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Ysgol Glan-y-Môr, Pwllheli

# Gweledigaeth Yr Ysgol

*Ysgol sy'n cynnig profiadau fydd yn gwreiddio pob disgybl yn ei ffo, ei iaith, ei ddiwylliant a'i amgylchedd.*

*Profiadau cyfoethog fydd yn creu pobl ifanc all gyfrannu'n llawn i'w cymdeithas a chymuned.*



3 Chwestiwn  
yn Cysylltu â'r  
Weledigaeth

*Pwy ydw i, a sut berson  
hoffwn i fod?*

*Sut le ydy fy milltir sgwâr, a  
sut le yr hoffwn iddo fod?*

*Sut le yw Cymru, a beth fydd  
ein lle yn y byd, yn y dyfodol?*

# 3 Chwestiwn yn Cysylltu â'r Weledigaeth

- Ar y dechrau wedi meddwl canolbwyntio ar un cwestiwn bob blwyddyn
- Ond wedi arbrofi a thrafod ar draws adrannau – teimlo bod hyn caethiwo gormod
- Felly, yn ymateb i'r cwestiynau yma ar draws CA3 ar wahanol adegau

# Mapio, Cynllunio a Cheisio Intergreiddio Nodweddion CiG

Ysgol Glan y Môr – Cynllunio Cwricwlwm			
Pwnc: Cymraeg	MDaPh: Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu	Blwyddyn: 7	Hanner Tymor: Hydref (1+2)
Uned waith	Sut mae'n ymateb i'r weledigaeth, y Pedwar Diben a thri chwestiwn yr ysgol	Maes Dysgu a Phrofiad, Hyn sy'n Bwysig, manylion yr Esgwyddorion Cymnydd a Disgrifiadau Dysgu'r Cam Cymnydd perthnasol	Sgiliau Trawsgwricwlaidd, Themâu Trawsgwricwlaidd, Sgiliau Cyfannol, Cyfleoedd i gydweithio a Chysylltiadau Allweddol
<p>1. Llafar – Cyflwyno 3-elfem sy'n cynrychioli <b>fi fy hun</b></p> <p>2. Ysgrifennu Blog – Cyflwyno gwybodaeth am <b>fi fy hun</b> (Tasg estymedig TG – cyfle i greu flog)</p>	<p>Mae'r dair uned gynaf yn ymateb i'r cwestiwn <b>'Pwy ydwi I?'</b> Bydd cyfle i gyflwyno eu hunain a dathlu'r hyn sy'n eu gwneud nhw'n unigryw, bydd modd cyflwyno gwybodaeth bellach ar ffurf blog/flog a bydd cyfle i drafod hunanddelwedd a dylanwad y gwefannau cymdeithasol.</p> <p><b>Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddygu drwy gydol eu bywydau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gosod safonau uchel iddyn nhw eu hunain ac yn chwilio am heriau ac yn eu mwynhau drwy feddwl tu allan i'r bocs wrth fynd ati i lunio flog gwreiddiol</li> <li>• datblygu corff o wybodaeth ac sydd â'r sgiliau sydd eu hangen i gysylltu'r wybodaeth honno a'i chymhwysio mewn gwahanol gyd-destunau drwy droi'r blog i'w hysgrifennu yn ffordd ddiatol</li> </ul>	<p>Tasg 1 a 2: <b>YMSB 3 - Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.</b> Mae cyfathrebu clir ac effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig yn un o sgiliau pwysig bywyd. Mae'n gofyn am allu defnyddio ac addasu iaith mewn amrywiaeth o rolau, genres, ffurfiau, cyfryngau ac arddulliau, a hynny mewn cywoir addas.</p> <p><b>CC3 - Rwy'n gallu adnabod yr iaith briodol ar gyfer gwahanol gymulleidfacedd a dibenion gan amrywio fy mynegiant, geirfa a naws i ennyn diddordeb v cynulleidfa.</b></p>	<p>Llythrennedd TGCh - flog Iechyd a Ues - hunanddelwedd</p>

# Intergreiddio i Gynlluniau G

Gweledigaeth

Pwnc: Cymraeg	Tymor	Mae profiadau'r uned hon yn cyfrannu i weledigaeth yr Ysgol drwy:
Teitl yr Uned: Sut alla i ysgrifennu cyfarwyddiadau gerdded yn fy ardal?	3 Chwestiwn	Tasgau paratoi blaenorol wedi addysgu disgyblion am bwysigrwydd gwarchod enwau llefydd yn eu bro. Bydd gwaith yr uned nesaf yn barhad o hynny, lle y byddan nhw yn dod i adnabod mwy ar eu milltir sgwâr, ac yn rhoi cyfle iddyn nhw addysgu ei gilydd ar lefydd pwysig yn yr ardal.
Cyd-destun: <u>(Uwchleuwch)</u> <i>Pwy ydw i, a sut berson hoffwn i fod?</i> <b>Sut le ydy fy milltir sgwâr, a sut le yr hoffwn iddo fod?</b> <i>Sut le yw Cymru, a beth fydd ein lle yn y byd, yn y dyfodol?</i>		Nod y wers: Dysgu beth yw'r meini prawf ar gyfer ysgrifennu cyfarwyddiadau ar gyfer taith gerdded o'r ardal.  Mewn gwersi a fydd yn dilyn, bydd y disgyblion yn cwblhau mwy o ymarferion iaith perthnasol, cyn mynd ati i ysgrifennu cyfarwyddiadau eu hunain, er mwyn cael eu rhoi ar wefan.
Cyd-destun y wers e.e Dechrau'r uned, unrhyw ddysgu blaenorol		
Yn y gwersi blaenorol, mae'r disgyblion wedi- <ul style="list-style-type: none"><li>• Meddwl am lefydd yn eu milltir sgwâr sy'n bwysig iddyn nhw -&gt; hybu balchder ac ymwybyddiaeth o lefydd yn eu milltir sgwâr</li><li>• Adnabod llefydd yn yr ardal o'r lluniau – rhain yn lefydd sy'n cael eu camenwi e.e. Carreg yr <u>Imbyll</u>, Trwyn y Tal,</li><li>• Gwaith Cartref/Gwaith Cefnogol – ar y gweill – mae disgyblion wedi nodi hyn yng nghefn eu llyfrau Cymraeg</li></ul>		
Adnoddau: <ul style="list-style-type: none"><li>• Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol – <u>BGRh</u></li><li>• Taflenni gwaith</li><li>• <u>Aroleuwyr</u></li></ul>		

# Intergreiddio i Gynlluniau Gwers

Yr Hyn Sy'n Bwysig: Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Mae'r wers yn ymateb i'r Datganiad(au) hyn: ([ywcholeuwch](#) y Datganiad(au))

Ymateb i'r HSB



Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd.
Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd a'n hamgylch.
Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.
Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.

Cysylltiadau o fewn ac ar draws y **MDaPh**

Disgrifiad bras o'r cysylltiadau trawsgwricwlaidd ble fo'n berthnasol

Llythrennedd

Dyniaethau – Hanes, Daearyddiaeth – mapio cyfarwyddiadau yn y dasg asesu

Gweld Cysylltiadau ar Draws  
MDaPh



# Intergreiddio i Gynlluniau Gwers

## Cynnydd Disgybl

Yn ystod y wers, byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu:

*Nodwch y camau cynnydd o fewn YHSB,*

### **YHSB 1 - Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd.**

Mae ieithoedd yn ein cysylltu â phobl, lleoedd a chymunedau. dysgu am ein hunaniaeth ddiwylliannol ein hunain ac felly feithrin balchder dysgwyr yn eu hymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn i Gymru.

CC3 - Rwy'n gallu deall bod cysylltiadau rhwng iaith, diwylliant a hunaniaeth a bod rhain yn amrywio o fewn Cymru ac o amgylch y byd.

CC4 - Rwy'n gallu deall sut y gall ieithoedd feithrin ymdeimlad o berthyn i'r gymuned leol

### **YHSB 3 - Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.**

Mae cyfathrebu clir ac effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig yn un o sgiliau pwysig bywyd. Mae'n gofyn am allu defnyddio ac addasu iaith mewn amrywiaeth o rolau, genres, ffurfiau, cyfryngau ac arddulliau, a hynny mewn cywair addas.


CC3 - Rwy'n gallu addasu a thrin iaith a gwneud dewisiadau priodol ynghylch geirfa, iaith idiomatig a chystrawen er mwyn mynegi fy hun yn rhugl ac eglur.

CC3 - Rwy'n gallu myfyrto ar ansawdd fy mynegiant a defnyddio ystod o strategaethau i sicrhau mwy o eglurder yn fy nghyfathrebu aweledol, llafar ac ysgrifenedig.



# HMS – Taith / Profiad y Dysgwr

- Wedi bod yn edrych ar beth ddylai'r dysgwr edrych – pa fath o brofiadau, beth ddylai fod yn gallu ei wneud erbyn diwedd yr ysgol uwchradd
- Gwneud hyn fel ysgol gyfan – a phawb i gymysgu MDaPh – man cychwyn, cyn ystyried agweddau gwahanol CiG – rhoi ffocws wrth gynllunio
- Cyfle i feddwl pam, beth, sut?



# Arfarnu Yn Ystod y Flwyddyn

- UDRh yn rhoi cyfleoedd i ni arfarnu'r cynllunio a'r dysgu yn gyson - arfarnu yn erbyn YHSB hefyd
- Pob adran / MDaPh yn trafod ac yn ymateb ar dabl – hyn yn fodd i ni weld beth sydd wedi gweithio yn ogystal â rhoi cyfeiriad ar gyfer y tasgau a'r unedau nesaf
- Ffordd i atgoffa ein hunain a sicrhau ein bod yn ymateb i'r YHSB

1. Y Trosolwg – Y Cynllunio (Mae atebion cryno yn ddigon gan amlaf yn y fan yma)

i'w gwblhau 5/10/21

	B17 Tymor 1	B17 Tymor 2	B17 Tymor 3	B18 Tymor 1	B18 Tymor 2	B18 Tymor 3
A ydych wedi pennu cyfeiriad f'ch darpariaeth, sef y Trosolwg ar gyfer Blynyddoedd 7 ac 8?						
A ydych wedi paratoi deunyddiau addysgu i gyd-fynd â'r Trosolwg?						

# HMS – Cynllunio Fel Ysgol

- Mae'r ysgol wedi cynnal dyddiau o hyfforddiant er mwyn ymateb i wahanol agweddau'r cwricwlwm e.e. er mwyn ymateb i'r HSB
  - Wedi cael cyfle i ddarllen, trafod ein datganiadau o'r HSB ein hunain
  - Ond hefyd, wedi cael cyfle i wneud hyn gyda'r MDaPh arall – ddeall am yr HSB ym meysydd ein gilydd
  - O safbwynt uwchradd - Mae'n bwysig i ni ddeall MDaPh eraill os ydym am ddeall beth yw taith y disgybl o fewn yr ysgol
  - Angen gwneud mwy o hyn gyda'r camau cynnydd yn yr wythnosau nesaf?

# Cynllunio ac Arbroti gyda CiG fel Adran

- Yr adran wedi mynd ati i ddechrau defnyddio datganiadau o'r hyn oedd yn bwysig er mwyn cynllunio unedau gwaith / gwersi.
- Fe aethom ati i greu uned o waith ar gefndir y Gymraeg
- I ddechrau mi wnaethon ganolbwyntio ar un flwyddyn, a cheisio creu unedau o waith yn ymateb i un o'r datganiadau - **Mae ieithoedd yn ein cysylltu gyda'n gilydd**

# Cynllunio ac Arbrosi gyda CiG fel Adran

- Ond, wrth ymarfer ac arbrosi fe wnaethom ddarganfod ei bod hi yn llawer gwell i beidio cyfyngu ein hunain na'r dysgwyr i **un datganiad** wrth gynllunio.
- Disgyblion yn cael profiad gwell, a llawnach drwy fod yn agored i'r holl ddatganiadau.
- Wrth werthuso'r unedau cyntaf a gynlluniwyd, roedd hi'n amlwg hefyd bod plethu'r datganiadau YHSB yn dod yn beth mwy naturiol

# Cynllunio ac Arbrofi gyda CiG fel Adran

- Edrych ar beth oeddem yn ei wneud yn barod oedd yn addas ac yn ymateb i CiG – ydy'r tasgau yn ymateb i HSB? Ydyn nhw yn cyd-fynd â'r 4 Diben
- Cyfle i gadw, addasu a newid wrth wneud hyn – dod a gogwydd leol, addasu trefn themâu mae CA3 yn eu trafod.
- Dechrau gyda un flwyddyn wrth arbrofi
- Symud ymlaen wedyn I addasu CA3